# DEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Atodlen 1 Cymwysterau Cymru***

**Rhan 1 - Sefydlu Cymwysterau Cymru**

***Paragraffau 28 i 30: Adroddiadau blynyddol ac adroddiadau eraill***

133. Mae'r paragraffau hyn yw ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru adrodd yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn pennu'r hyn y mae rhaid i'r adroddiad hwnnw ei gynnwys, gan alluogi Cymwysterau Cymru i gynnwys gwybodaeth ychwanegol. Yn ogystal ag adrodd ar ei waith yn ystod y flwyddyn flaenorol, a nodi ei gynigion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, rhaid i Gymwysterau Cymru adrodd ar unrhyw ganfyddiadau y mae wedi eu gwneud yn y flwyddyn adrodd am effaith ei weithgareddau ar y system gymwysterau, am ei waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac am unrhyw gasgliadau y mae wedi dod iddynt drwy waith ymchwil y mae wedi ei wneud. Gallai rhanddeiliaid gynnwys, er enghraifft, dysgwyr, rhieni, cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch, ysgolion, colegau, cyrff dyfarnu, cyrff proffesiynol a rheoleiddwyr eraill.

134. Mae'r flwyddyn adrodd yn rhedeg i 31 Awst bob blwyddyn a rhaid llunio'r adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y dyddiad hwnnw. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi. Caiff Cymwysterau Cymru lunio a chyhoeddi adroddiadau ychwanegol fel y mae'n gweld yn dda ar faterion sy'n ymwneud â'i swyddogaethau.